Bactif
LLES EGNÏOL • ACTIVE WELLBEING

# Canllawiau Grant a Meini Prawf Cymhwystra








## Nod y Gronfa Cymorth i Chwaraeon

yw cryfhau cyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar lawr gwlad ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr drwy ddarparu grantiau bach i glybiau chwaraeon lleol, grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol.




Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

## BWRIAD Y GRONFA YW:

- Cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.
- Annog pobl o bob oedran a gallu i fod yn fwy egnïol, yn amlach.
- Gwella cyfleoedd i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol gymryd rhan mewn chwaraeon.
- Cefnogi datblygiad gwirfoddolwyr, hyfforddwyr, swyddogion ac arweinwyr cymunedol.
- Cryfhau clybiau chwaraeon cymunedol a seilwaith chwaraeon lleol.
- Gwella mynediad at gyfleoedd chwaraeon fforddiadwy.
- Cefnogi prosiectau sy'n cyfrannu at gymunedau iachach, cryfach a mwy cysylltiedig.

## CYLLID SYDD AR GAEL

- Mae grantiau o hyd at £1,000 ar gael.
- Gellir cyflwyno un cais, fesul blwyddyn ariannol, yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.
- Gall sefydliadau gyflwyno un cais fesul prosiect.
- Rhaid cwblhau prosiectau o fewn 12 mis ar ôl derbyn cyllid.

## PWY GAIFF WNEUD CAIS? **Derbynnir ceisiadau gan y canlynol:**

- Clybiau chwaraeon a gyfansoddwyd.
- Clybiau sy’n gysylltiedig â Chorff Llywodraethu Cenedlaethol. (Mae cysylltiad â Chorff Llywodraethu Cenedlaethol yn ofyniad gorfodol ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau penodol)
- Grwpiau cymunedol sy'n darparu cyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol.
- Sefydliadau nid-er-elw.
- Mudiadau cymunedol a gwirfoddol.

## RHAID BOD YMGEISWYR:

- Yn gweithredu ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
- Â chyfrif banc yn enw'r sefydliad.
- Â chyfansoddiad neu ddogfen lywodraethu.
- Â pholisïau diogelu, cydraddoldeb ac iechyd a diogelwch priodol lle bo'n berthnasol.

## MEYSYDD BLAENORIAETH: Rhoddir blaenoriaeth i brosiectau sy'n:

- Cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.
- Cefnogi plant a phobl ifanc i fod yn egnïol.
- Cynyddu cyfleoedd i fenywod a merched.
- Gwella mynediad i bobl anabl a'r rhai ag anghenion ychwanegol.
- Cefnogi cyfranogiad mewn ardaloedd o amddifadedd.
- Datblygu gwirfoddolwyr, hyfforddwyr, swyddogion neu arweinwyr.
- Creu cyfleoedd chwaraeon cynaliadwy.
- Annog gweithio mewn partneriaeth rhwng sefydliadau.
- Cefnogi darpariaeth Gymraeg o fewn chwaraeon.
- Lleihau rhwystrau i gyfranogiad trwy offer, hyfforddiant neu weithgareddau newydd.

## BETH GELLIR EI GYLLIDO? Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Cymwysterau hyfforddi, gweinyddu ac arwain.
- Hyfforddiant a datblygiad gwirfoddolwyr.
- Offer sydd ei angen i sefydlu neu ehangu gweithgareddau.
- Sesiynau blasu a rhaglenni cyfranogi.
- Llogi lleoliad sy'n gysylltiedig â gweithgareddau newydd. (Mae uchafswm cyfnod o10 wythnos ar logi lleoliad)
- Offer cynhwysiant anabledd.
- Deunyddiau marchnata a hyrwyddo ar gyfer mentrau cyfranogi.
- Digwyddiadau chwaraeon cymunedol sydd â'r nod o gynyddu cyfranogiad.
- Costau cychwynnol ar gyfer prosiectau chwaraeon cymunedol newydd.

## BETH NA ELLIR EI GYLLIDO? Ni fydd y gronfa fel arfer yn cefnogi:

- Costau ôl-weithredol.
- Cyflogau neu gostau staffio parhaus.
- Costau rhedeg craidd nad ydynt yn gysylltiedig â phrosiect penodol.
- Alcohol neu letygarwch.
- Sefydliadau chwaraeon proffesiynol.
- Prosiectau sydd eisoes wedi dechrau.
- Nawdd unigol neu deithio tramor.
- Gweithgaredd cwricwlwm yr ysgol.

# CRONFA CYMORTH I CHWARAEON
## Ffurflen Gais

## Adran 1 – Manylion y Sefydliad

Enw'r Sefydliad: ..........

Enw Cyswllt: ..........

Swydd: ..........

Cyfeiriad: ..........

..........

Cod post: ..........

Ffôn: ..........

E-bost: ..........

Gwefan/Cyfryngau Cymdeithasol: ..........

..........

Rhif Elusen (os yw'n berthnasol): ..........

Rhif Cwmni (os yw'n berthnasol): ..........

Cysylltiad â Chorff Llywodraethu Cenedlaethol (os yw'n berthnasol): ..........

..........

## Adran 2 – Gwybodaeth am y Sefydliad

Disgrifiwch bwrpas eich sefydliad. Er enghraifft: clwb chwaraeon, grŵp gwirfoddol; sefydliad cymunedol:

..........

Faint o aelodau sydd gan eich sefydliad ar hyn o bryd?

Aelodau Iau: ..........

Aelodau sy'n Oedolion: ..........

Gwirfoddolwyr: ..........

**A oes gan eich sefydliad:**

☐ **Dogfen Lywodraethu/Cyfansoddiad** ☐ **Polisi Diogelu** ☐ **Polisi Cydraddoldeb**

☐ **Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus** ☐ **Cyfrif Banc yn Enw'r Sefydliad**

## Adran 3 – Manylion y Prosiect

Teitl y Prosiect: ................................................................................................................................

Swm y gofynnwyd amdano: ......................................................................................................

Dyddiad Dechrau'r Prosiect:..................................................................................................

Dyddiad Gorffen y Prosiect: ..................................................................................................

Disgrifiwch y prosiect ac am beth fydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio.
(Parhewch ar ddalen ychwanegol o bapur os oes angen. Uchafswm o 500 gair)

## Adran 4 – Yr Angen am y Prosiect

Esboniwch:
Pam mae angen y prosiect.
Pwy fydd yn elwa.
Unrhyw dystiolaeth o alw lleol.
(Parhewch ar ddalen ychwanegol o bapur os oes angen. Uchafswm o 500 gair)

## Adran 5 – Canlyniadau ac Effaith

Beth ydych chi'n disgwyl i'r prosiect ei gyflawni? Amcangyfrifwch: ..................................................

Nifer y cyfranogwyr: ..................................................

Nifer y cyfranogwyr newydd: ..................................................

Nifer y gwirfoddolwyr a gefnogir: ..................................................

Nifer yr hyfforddwyr/arweinwyr sydd wedi'u hyfforddi: ..................................................

Nifer y sesiynau a ddarperir: ..................................................

Sut fyddwch chi'n mesur llwyddiant? ..................................................

..................................................

## Adran 6 – Cynhwysiant a Hygyrchedd

**A fydd eich prosiect yn cefnogi:**

- ☐ **Plant a phobl ifanc**
- ☐ **Menywod a merched**
- ☐ **Pobl anabl**
- ☐ **Oedolion hŷn**
- ☐ **Cyfleoedd Cymraeg**
- ☐ **Cymunedau sy'n profi amddifadedd**
- ☐ **Cymunedau ethnig amrywiol**

Rhowch fanylion.

..................................................

..................................................

..................................................

## Adran 7 – Cyllideb y Prosiect

| Eitem | Cost (£) |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| **Cyfanswm Cost y Prosiect** | |

Swm y gofynnir amdano gan y Gronfa Cymorth i Chwaraeon: ..................................................

..................................................

Cyllid o ffynonellau eraill: ..................................................

## Adran 8 – Cynaliadwyedd

Sut bydd y prosiect yn parhau pan fydd y cyllid hwn wedi dod i ben?
(Parhewch ar ddalen ychwanegol o bapur os oes angen. Uchafswm o 250 gair)

.................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................

## Adran 9 – Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod y wybodaeth a ddarperir yn y cais hwn yn gywir ac y bydd unrhyw gyllid a ddyfernir yn cael ei ddefnyddio at y dibenion a amlinellir yn y cais hwn yn unig.

Enw: .........................................................................................................................................

Swydd: .........................................................................................................................................

Llofnod: .........................................................................................................................................

Dyddiad: .........................................................................................................................................

## Datganiad 2

Rwy'n cadarnhau bod y wybodaeth a ddarperir yn y cais hwn yn gywir ac y bydd unrhyw gyllid a ddyfernir yn cael ei ddefnyddio at y dibenion a amlinellir yn y cais hwn yn unig.

Enw: .........................................................................................................................................

Swydd: .........................................................................................................................................

Llofnod: .........................................................................................................................................

Dyddiad: .........................................................................................................................................

**Rhestr wirio tystiolaeth:**

☐ **Prawf o gyfrif banc yn enw'r sefydliad Cysylltiad â Chorff Llywodraethu Cenedlaethol os yw'n berthnasol**

**Enw Cyfrif Banc:** ..............................................................**Rhif Cyfrif:** ..................................**Cod Didoli:** ...........................

## Diogelu Data

Bydd y wybodaeth a ddarperir yn cael ei defnyddio gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i weinyddu'r Gronfa Cymorth i Chwaraeon a gellir ei rhannu â phartneriaid cyllido at ddibenion asesu a monitro.

# GOFYNION LLYWODRAETHU



**Rhaid i ymgeiswyr hefyd ddangos:** Pan fo gweithgareddau'n cynnwys Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol Chwaraeon cydnabyddedig, rhaid i ymgeiswyr ddangos cysylltiad priodol lle bo angen.

- Trefniadau diogelu priodol.
- Yswiriant addas.
- Cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb a chynhwysiant.
- Trefniadau rheoli ariannol priodol.

# GOFYNION MONITRO




**Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr llwyddiannus ddarparu:**

- Adroddiad byr ar ddiwedd y prosiect.
- Tystiolaeth o wariant.
- Manylion niferoedd cyfranogwyr.
- Astudiaethau achos, ffotograffau neu dystebau os ar gael.

Gall methu â darparu gwybodaeth monitro effeithio ar geisiadau yn y dyfodol.

# GWNEUD PENDERFYNIADAU AR Y GRONFA



Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu gan y Panel Cymorth i Chwaraeon. Mae penderfyniad y Panel yn derfynol ac mae'r dyfarniadau yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.






**Cysylltu:**
**07966 869655**
**Maxine.Boobyer@bridgend.gov.uk**